

## SEFYDLIAD Y MERCHED DOLWYDDELAN



Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Hydref yn y Sefydliad i Ferched hanesyddol a chyntaf un yn y Tolldy ar Ynys Môn a bu inni fwynhau tamaid i ginio a thaith tywys o amgylch yr amgueddfa.

Dyma lle gynhaliwyd cyfarfod cyntaf un Sefydliad y Merched ym Mhrydain ar Fedi'r 16eg 1915... Dros ganrif yn ddiweddarach, mae'r byd wedi newid yn aruthrol, ond mae Sefydliad y Merched wedi bod ar waith yn gyson drwy gydol yr amser.

Diben y sefydliad oedd cynnig modd i wragedd ffermwyr ennill addysg, cwrdd a gweithredu fel grŵp effeithiol. Roedd hyn yn ystod cyfnod lle bu tloidi difrifol ac anwybodaeth ymysg teuluoedd oedd yn gweithio.

Bu i'r grŵp gyflwyno bydragedd a nyrsys cymunedol i wella iechyd a glanweithdra a chynnig pecynnau i fabanod. Roedd nifer fawr o famau methu â fforddio siôl neu het hyd yn oed ar gyfer eu babi newydd.

Ers eu cychwyn diymhongar mewn pentref bach yng Ngogledd Cymru fe ddatblygodd Sefydliad y Merched yn sylweddol gan hybu cyflenwadau bwyd yn ystod y ddau Ryfel Byd a chynnal ymgyrchoedd arloesol yn ymwneud â chyflog cyfartal a chodi ymwybyddiaeth am AIDS. Mae Sefydliad y Merched yn hen law ar ymgymryd â gwaith addysgiadol ac ymgyrchu ynghylch ystod eang o faterion.

Rydym yn cwrdd ar ddydd Gwener gyntaf pob mis.

**Os hoffech chi ymuno gyda ni, cysylltwch gydag Ali ein Hysgrifenyddes ar 07780 1658441**



### CYMDEITHAS HANESYDDOL DOLWYDDELAN

Yn dilyn hoe, mae'n bleser gennym ni gyhoeddi y byddwn ni'n ailgydio yn ein cyfarfodydd misol ar gychwyn y Flwyddyn Newydd. Nos Lun am 7.00yh yn yr Ystafell Gyfrifiaduron, y tu ôl i Ysgol Dolwyddelan.

Chwefror 6 – Mr John Hughs – Ffotograffiaeth Danddaearol  
Mawrth 6 – Mr Morris – Yr Ymgais i'r Tywysog Madog